# Cylch gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De – papur trafod

## Cyflwyniad

Fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gwrdd â phob aelod o'r tasglu'n unigol rhwng mis Medi a mis Tachwedd. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cafwyd trafodaethau am gylch gwaith y tasglu a rolau'r aelodau unigol. Papur gorchwyl drafft yw hwn i sbarduno trafodaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd y tasglu ac er mwyn llywio cylch gorchwyl diwygiedig wedi hynny.

## Aelodaeth

Cafodd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De ei sefydlu gan Lywodraeth Cymru yng Ngorffennaf 2016 wedi etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a refferendwm yr UE. Y cadeirydd yw Alun Davies, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae Ken Skates, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth a Julie James, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip yn aelodau o'r tasglu hefyd.

Yr aelodau eraill yw:

- Ann Beynon, cadeirydd Bwrdd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Andrew Diplock, entrepreneur, cynghorydd busnes a buddsoddwr Angel
- Judith Evans, pennaeth Coleg y Cymoedd
- Dr Chris Jones, Cadeirydd Dros Dro Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Martin Mansfield, ysgrifennydd cyffredinol, TUC Cymru
- Y Cynghorydd Andrew Morgan, arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Yr Athro Brian Morgan, Prifysgol Caerdydd
- Jocelyn Davies, cyn Ddirprwy Weinidog Plaid Cymru dros Dai ac Adfywio
- Fiona Jones, cyfarwyddwr gwasanaethau gwaith Cymru a thîm partneriaethau a chyflogwyr, Adran Gwaith a Phensiynau
- Gaynor Richards, cyfarwyddwr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot

## Cylch gorchwyl y cytunwyd arno fis Tachwedd 2016

Bydd y tasglu'n rhoi cyngor ar y camau gweithredu ar y cyd sydd eu hangen er mwyn datblygu dull integredig o:

- ymgysylltu a grymuso cymunedau lleol;
- rhagor o adfywio a datblygu economaidd;
- hyrwyddo effeithiolrwydd a chystadleurwydd busnes;
- hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy;
- gwella'r broses o ddatblygu a chymhwyso sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth;
- gwella effeithiolrwydd gwasanaethau cyhoeddus;
- a chyfrannu at ddatblygu cynaliadwy.

Bydd y tasglu'n gweithio gydol oes y Llywodraeth hon, gan gydnabod bod angen dull hirdymor o weithio.

## Cylch gwaith arfaethedig

Gan weithio gyda phobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghymoedd y De, mae'r tasglu'n allweddol o ran llywio gwaith Llywodraeth Cymru, yn enwedig newid a

phennu polisi'r llywodraeth mewn perthynas â'r Cymoedd. Er mai arbenigwyr annibynnol yw aelodau'r tasglu, nid yw'n sefydliad annibynnol ar wahân i Lywodraeth Cymru.

I lwyddo, mae'n rhaid i'r tasglu ddod ag adnoddau Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid niferus ynghyd er mwyn cefnogi'r Cymoedd. Bydd angen i amrywiaeth eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig; y GIG; ysgolion a phrifysgolion – partneriaid y trydydd sector a busnesau preifat gydweithio er mwyn cyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Bydd y ffocws ar swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni, gwasanaethau cyhoeddus gwell a Fy nghymuned leol.

Bydd aelodau'r tasglu'n goruchwylio ac yn herio'r broses barhaus o gyflawni'n erbyn y cynllun. Mae gweithgorau wedi'u sefydlu i ystyried meysydd penodol y cynllun, pob un wedi'i arwain/cadeirio gan aelod o'r tasglu. Byddwn yn parhau i adolygu'r dull hwn o weithio.

Arweinwyr y ffrydiau gwaith yw:

- Twf busnesau a sefydlu busnesau newydd - Andrew Diplock
- Cyflogadwyedd - Fiona Jones
- Economi sylfaenol - Martin Mansfield
- Hybiau strategol - John Howells
- Hybiau cymunedol - Andrew Morgan
- Parc Tirweddau'r Cymoedd - Jocelyn Davies
- Digidol - Ann Beynon

**Bwrdd Tasglu'r Cymoedd**

Cefnogir y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De gan Fwrdd Tasglu'r Cymoedd sydd â'r nod canlynol:

- Darparu cyngor ac argymhellion realistig a chlir ar sail tystiolaeth er mwyn hysbysu a llywio gwaith y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De er mwyn helpu i wireddu uchelgais a gweledigaeth "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol";
- Arwain ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb cyffredinol am gyflawni camau a gweithgareddau "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol" yn llwyddiannus.

**Cynigion Llywodraethu**

- Cyfarfodydd y Tasglu i gynnwys cyflwyniadau/trafodaethau amserol am gerrig milltir allweddol i ddod yn seiliedig ar ffrydiau gwaith – i'w harwain ar y cyd gan arweinydd y tasglu a'r swyddog perthnasol.
- Adrodd ar gamau gweithredu eraill.
- Gwirio ymdeimlad trwy ymgysylltu â'r gymuned.
- Monitro'r cynnydd yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol perthnasol yng Nghymoedd y De, ac ystyried a chynghori ar ddiweddariadau blynyddol ac adroddiadau monitro yn erbyn nifer o dargedau allweddol yn y cynllun.